Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona

Tachwedd 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 2025. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

**2.** Yn ôl ei enw hir, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd a ganlyn:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol, arfau ymosodol, troseddau yn erbyn pobl (gan gynnwys troseddau rhywiol), troseddau eiddo, camfanteisio'n droseddol ar bobl, troseddwyr rhyw, stelcian a threfn gyhoeddus;
- pwerau'r heddlu, llu'r ffiniau a phersonau tebyg eraill;
- atafaelu;
- yr heddlu;
- terfysgaeth a diogelwch gwladol, a chytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â throseddu;
- atebolrwydd troseddol cyrff; ac
- at ddibenion cysylltiedig.[2]

**3.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mehefin 2025. Wedi hynny, cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf a'i Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi[3], a dechreuodd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 10 Tachwedd 2025.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**4.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (darpariaeth berthnasol).

[1] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i cyflwynwyd (Bil 187) [Saesneg yn unig]
[2] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i cyflwynwyd
[3] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil Tŷ'r Arglwyddi 111 (*Wedi'i gywiro*))

**5.** Ar 28 Mawrth 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, femorandwm cydsyniad deddfwriaethol[4] mewn cysylltiad â'r Bil (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[5]

**6.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 5 Mehefin 2025.[6] Yn ein hadroddiad, cytunwyd ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer[7], ond argymhellwyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi mwy o eglurder ynghylch ei datganiad yn y Memorandwm ei bod o'r farn ei bod "er budd gorau Cymru" i gynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn y Bil hwn, a gyflwynir i Senedd y DU, ac nid mewn Bil a gaiff ei ystyried gan y Senedd.[8]

**7.** Argymhellwyd hefyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi:

- safbwynt Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith (darpariaethau I-LEAP);
- y canlyniad a ffefrir yn sgil ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r cymalau hyn.[9]

**8.** At hynny, argymhellwyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o wybodaeth i esbonio pam nad oedd Llywodraeth Cymru, ar adeg yr adroddiad, wedi gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r cymalau hyn.[10]

**9.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar 15 Gorffennaf 2025. Yn ei hymateb, nodwyd bod y darpariaethau yn y Bil yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl a bod cymryd rhan yn y Bil "yn

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu a Phlismona, 28 Mawrth 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu a Phlismona, 28 Mawrth 2025, paragraff 41
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025, Casgliad 1
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025, Argymhelliad 1
[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025, Argymhelliad 2
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025, Argymhelliad 3

sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu hamddiffyn rhag trais difrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol." Nodwyd hefyd fod cytundeb wedi'i wneud gyda Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r darpariaethau I-LEAP, a bod safbwynt Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r darpariaethau hyn wedi'i nodi mewn memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (gweler yr adran nesaf).[11]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**10.** Ar 2 Gorffennaf 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[12]

**11.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 10 Hydref 2025.[13] Ar ôl hynny, estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 21 Tachwedd 2025.[14]

### Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm

**12.** Fel y nodir ym mharagraff 9 o'r adroddiad hwn, ym Memorandwm Rhif 2 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi diweddariad mewn cysylltiad â'r darpariaethau I-LEAP yn y Bil:

> *"Yn dilyn ymgysylltu swyddogol, rwyf yn awr yn fodlon ar y dull ac yn gallu argymell bod y Senedd yn cefnogi'r darpariaethau hyn. Er bod hyn yn gwyro oddi wrth ein hegwyddor arferol o ran pwerau cydredol, rwy'n cydnabod cyfyngiadau'r pwerau yn eu cyd-destun, y gorgyffwrdd â materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, a safbwyntiau dilys y DU o ran rhwymedigaethau rhyngwladol."*[15]

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Gorffennaf 2025
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Troseddu a Phlismona, 2 Gorffennaf 2025
[13] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Troseddu a Phlismona, Gorffennaf 2025
[14] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Troseddu a Phlismona, Medi 2025
[15] Memorandwm Rhif 2, paragraff 10

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**13.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi ym Memorandwm Rhif 2 fod y Gweinidog Gwladol dros Blismona ac Atal Troseddu wedi ysgrifennu ati ar 10 Mehefin 2025 yn amlinellu mesurau newydd a fyddai'n gymwys i Gymru.[16]

**14.** Mae'n nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus[17]) i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd[18]; gwelliannau y cytunwyd arnynt wedyn[19]. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol[20], mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod y gwelliannau a ganlyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer:

- cymal newydd OPC[21] 192 (Ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus tuag at weithwyr argyfwng);
- cymal newydd OPC 194 (Ymddygiad bygythiol neu ymosodol sy'n debygol o aflonyddu, codi braw neu achosi trallod i weithwyr argyfwng);
- cymal newydd OPC 195 (Dehongli cymalau newydd OPC 192 a 194);
- cymal 112 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (cymal 90 fel y'i cyflwynwyd) fel y'i diwygiwyd gan OPC 180, OPC 181, OPC 182, OPC 183, OPC 184, OPC 187, OPC 225, OPC 226: Cofebau.[22]

**15.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen cydsyniad ar gyfer cymalau newydd OPC 192, OPC 194 ac OPC 195 oherwydd eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[23] Mae hi hefyd yn nodi bod y newidiadau i gymal 112 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus (cymal 90 fel y'i cyflwynwyd):

> *"… yn ehangu neu o bosibl yn ehangu'r drosedd o ddringo ar gofeb ryfel i gofebau eraill. Mae'r gwelliannau yn dileu'r cyfeiriad at ryfel ('war') ac yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd*

[16] Memorandwm Rhif 2, paragraff 9
[17] Bil 235
[18] Memorandwm Rhif 2, paragraff 3
[19] Y Bil Troseddu a Phlismona, Penderfyniadau'r Cyfnod Adrodd, 18 Mehefin 2025 [Saesneg yn unig]
[20] Memorandwm Rhif 2, paragraff 3
[21] Er nad yw'n cael ei esbonio ym Memorandwm Rhif 2, mae rhifau "OPC" yn rhifau cyfeirnod a neilltuwyd i'r gwelliannau gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol.
[22] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 11 i 14
[23] Memorandwm Rhif 2, paragraff 13

*Gwladol ychwanegu cofebau eraill at y rhestr o gofebau sydd wedi eu rhestru yn y Bil ar hyn o bryd. Nid yw'r drosedd wedi ei chyfyngu i gyd-destun protest ac mae'r amgylchedd hanesyddol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*[24]

## Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

**16.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau OPC 192, OPC 194 ac OPC 195.[25]

**17.** Fodd bynnag, mae'n nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad ar gyfer gweddill y gwelliannau, fel y'u nodir uchod. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn credu mai'r "ddadl gryfaf" yw bod y gwelliannau hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig.[26]

## Goblygiadau ariannol

**18.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil "ar hyn o bryd".[27]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**19.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi ei rhesymau dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil:

*"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl ac mae ein cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan y DU yn ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol. Byddai'r darpariaethau newydd yn sicrhau bod gweithwyr argyfwng yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â gweithwyr cyfatebol yn Lloegr. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol fel a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r nod llesiant ar gyfer Cymru sy'n wlad fwy*

[24] Memorandwm Rhif 2, paragraff 14
[25] Memorandwm Rhif 2, paragraff 15
[26] Memorandwm Rhif 2, paragraff 16
[27] Memorandwm Rhif 2, paragraff 20

> *cyfartal fel a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*
>
> *Ni fyddai gweithwyr argyfwng a dargedir oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd yn cael eu cwmpasu gan y newid hwn. Trwy ddarparu amddiffyniadau ar gyfer dim ond dau o'r pum llinyn yr ymdrinnir â hwy yn neddfau troseddau casineb y DU, dylid nodi bod y ddarpariaeth hon yn ehangu gwahaniaethau presennol, fel a adolygwyd ac a amlygwyd yn fanwl gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad 2021 ar gyfreithiau troseddau casineb.*
>
> *Dylid nodi hefyd bod Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 hefyd yn cwmpasu ysgogi casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Nid yw'n glir pam nad yw'r nodwedd warchodedig hon wedi'i chynnwys ochr yn ochr â hil a chrefydd."*[28]

**20.** I gloi, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymell bod y Senedd yn cefnogi cynigion y Bil ac yn rhoi ei chydsyniad.[29]

## Gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet

**21.** Ysgrifennwyd at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 29 Medi 2025 mewn cysylltiad â safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau I-LEAP yn y Bil.[30] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar 21 Hydref 2025.[31]

**22.** Gofynnwyd am eglurder pellach gan yr Ysgrifennydd Cabinet i esbonio pam, ar adeg gosod y Memorandwm, nad oedd hi mewn sefyllfa i argymell y dylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau hyn. Dywedodd wrthym, ar y pryd:

> *"… roedd y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r gwaith dadansoddi cysylltiedig yn dal i fynd rhagddynt. Roeddwn yn awyddus i sicrhau na fyddai hyn yn gohirio gosod y*

[28] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 17 i 19
[29] Memorandwm Rhif 2, paragraff 23
[30] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 29 Medi 2025
[31] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025

*Memorandwm ymhellach, ac felly amlinellwyd y sefyllfa fel yr oedd yn y Memorandwm."*[32]

**23.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn dilyn y trafodaethau hynny, roeddwn yn fodlon mai safbwynt credadwy o ran gweithredu cytundebau rhyngwladol oedd sail strategaeth Llywodraeth y DU yn hytrach nag unrhyw ddiystyru ar ddatganoli. Rydym yn parhau i gefnogi datganoli maes cyfiawnder yn ei gyfanrwydd, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Rwy'n ystyried bod perthnasedd datganoli i'r mater hwn yn gyfyngedig, a bod y risg gyfansoddiadol yn gyfyngedig."*[33]

**24.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y rhesymau dros wyro Llywodraeth Cymru oddi wrth ei hegwyddorion arferol[34] o ran pwerau cydredol drwy gytuno ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU:

> *"Bydd gweithredu'r rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol yn hyn o beth yn ymwneud â chymysgedd o faterion technegol a gweithredol datganoledig ac annatganoledig, a bydd y manylion wedi'u pennu ar lefel ryngwladol. Yn y cyd-destun hwn, felly, nid oes llawer o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru."*[35]

**25.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro ystyr bwriadedig ei datganiad ym Memorandwm Rhif 2, sef bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod "safbwyntiau dilys y DU o ran rhwymedigaethau rhyngwladol". Wrth ymateb, nododd fel a ganlyn:

> *"Er na allaf ddatgelu union natur y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, mae'n eglur bod angen sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol o'r pwynt y dônt i rym ledled y DU. Mae safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsynio i gytundebau yn cael ei archwilio'n fanylach yng*

[32] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025, yr ymateb i gwestiwn 1a
[33] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025, yr ymateb i gwestiwn 1c
[34] Llywodraeth Cymru, Egwyddorion ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, Rhagfyr 2024
[35] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025, yr ymateb i gwestiwn 2

*nghanllawiau'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ar gytundebau a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth."*[36]

**26.** Yn olaf, gofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio mecanweithiau cydsynio ar gyfer Gweinidogion Cymru o fewn y darpariaethau hyn, yn unol â'i hegwyddorion uchod. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Archwiliwyd y dull gweithredu cyffredinol a nodir yn ein hegwyddorion, ynghyd â safbwynt Llywodraeth y DU ar rwymedigaethau rhyngwladol, fel yr amlinellir uchod. Cytunais felly fod angen sicrhau dull gweithredu ar lefel y DU, a bod unrhyw risgiau cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â phwerau cydredol yn y sefyllfa hon yn gyfyngedig."*[37]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**27.** Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 22 Medi 2025[38] ac ystyriwyd yr ohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet ar 3 Tachwedd 2025.[39]

**28.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 10 Tachwedd 2025.[40]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**29.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**30.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 2, o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

[36] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025, yr ymateb i gwestiwn 3
[37] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 21 Hydref 2025, yr ymateb i gwestiwn 4
[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Medi 2025
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Tachwedd 2025
[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2025

## Darpariaethau I-LEAP

**31.** Yn dilyn yr ohebiaeth rhyngom ni a'r Ysgrifennydd Cabinet (fel y nodir yn yr adran flaenorol), nodwn yr esboniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru am gynnwys pwerau cydredol yn y Bil heb unrhyw fecanweithiau cydsynio cysylltiedig ar gyfer Gweinidogion Cymru.

**32.** Rydym yn amlygu nad yw dull Llywodraeth Cymru o weithredu mewn cysylltiad â'r darpariaethau hyn yn cyd-fynd â'i hegwyddorion ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig. Credwn y dylai Memorandwm Rhif 2 fod wedi rhoi rhesymeg glir a mwy terfynol dros y gwyro hwn oddi wrth yr egwyddorion, gan gynnwys y rhesymau pam na cheisiwyd mecanweithiau cydsynio.

**33.** Er y gall fod hyblygrwydd cyfyngedig yn yr achos hwn ar gyfer y ffyrdd y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau a roddir iddynt – oherwydd yr angen i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol – credwn fod rhaid rhoi pwerau dirprwyedig mewn meysydd datganoledig i Weinidogion Cymru yn unig, fel mater o egwyddor. Yn yr achos hwn, ni welwn unrhyw rwystrau sy'n atal Gweinidogion Cymru rhag arfer pwerau mewn meysydd datganoledig ochr yn ochr â Gweinidogion mewn llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig, wrth gynnal dull gweithredu ledled y DU sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**34.** Nodwn fod hyn yng nghyd-destun rôl rhwymedigaethau rhyngwladol yn setliad datganoli Cymru. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gosod dyletswyddau penodol ar Weinidogion Cymru i ddilyn rhwymedigaethau rhyngwladol a chydymffurfio â hwy, fel y mae Cod Gweinidogol Llywodraeth Cymru ei hun yn ei wneud[41].

**Casgliad 2.** Credwn y dylid rhoi'r pwerau yn y Bil mewn meysydd datganoledig i Weinidogion Cymru yn unig, gan gynnwys mewn cysylltiad â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

**35.** Rydym hefyd yn cydnabod penderfyniad yr Ysgrifennydd Cabinet i beidio â gohirio'r gwaith o osod y Memorandwm ymhellach ym mis Mawrth 2025 tra bod trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r darpariaethau hyn yn parhau.

**36.** Fodd bynnag, mae'r rhesymau pam roedd y trafodaethau hynny yn dal i fynd rhagddynt wythnosau lawer ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno yn aneglur i ni, ac mae'n

[41] Llywodraeth Cymru, Cod y Gweinidogion, paragraff 1.5 [diweddarwyd 12 Medi 2025]

fater o bryder yng nghyd-destun cysylltiadau rhynglywodraethol. Felly, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o wybodaeth am lefel yr ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Bil hwn yn ystod y gwaith o'i ddatblygu, a hynny hyd at ddyddiad ei gyflwyno.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o fanylion am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Bil yn ystod cyfnod ei ddatblygu, gan gynnwys pryd y dechreuodd yr ymgysylltiad hwn.

## Cyfeiriadau "OPC"

**37.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at gymalau newydd yn y Bil, a gwelliannau i gymalau presennol, drwy eu cyfeiriadau "OPC". Er nad yw'n cael ei esbonio ym Memorandwm Rhif 2, y rhifau hyn yw'r rhai a neilltuwyd gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol. Am y rheswm hwn, nid ydynt yn rhoi dull hygyrch o nodi pa ddarpariaethau mewn gwelliannau a gyflwynwyd y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Felly, rydym yn ailadrodd ein safbwynt, a nodwyd mewn cysylltiad â memoranda eraill a osodwyd gan Lywodraeth Cymru[42], y dylai memoranda a osodir o dan Reol Sefydlog 29 gyfeirio'n glir at welliannau fel y'u cyhoeddwyd.

[42] Gweler, er enghraifft, baragraff 51 o'n hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg [Mai 2025].